CYNGOR CYMDEITHAS LLANFIHANGELESCEIFIOG.

Cofnodion cyfarfod Misol o'r Cyngor a gynhaliwyd yng Nghanolfan Esceifiog y Gaerwen, Nos Fawrth, 24ain EBRILL 2018.

PRESENNOL:

Cynghorwyr Mrs Barbara McKeaveney (Cadeirydd), Mrs Carol McGregor, Ms Rhian Roberts,

Mr Raymond Evans, Mr Derek Hughes, Mr Cynrig Jones, Mr Ian Owen, Mr John Pritchard,

Mr Einion Parry Williams a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

Cynghorydd Sirol Mr Eric Jones.

YMDDIHEURIAD:

Cynghorwyr Ms Linda Jones, Mr Mike Jones & Cynghorydd Sirol Mr Dafydd Roberts.

1 CROESO & DATGAN DIDDORDEB.

1.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd, yn arbennig, Cynghorydd Sirol Mr Eric Jones.

1.2 **Datgan Diddordeb Rhagfarnol.**

1.2.1 Roedd Cynghorydd Raymond Evans yn datgan diddordeb ynghylch a phris trwsio wal gerrig y Cae Chwarae gan fod ganddo cysylltiad busnes teuluol. Roedd y diddordeb personol yn un sy'n rhagfarnu ac ni chymerodd ran pan oedd yr eitem yn cael ei thrafod.

2 ADRODDIAD Y CYNGHORWYR SIROL.

Cafwyd adroddiad ar lafar oddiwrth y Cynghorydd Sirol, Mr Eric Jones;

2.1 Diolchodd Eric i'r aelodau am y croeso.

2.2 Cafwyd adroddiad cryno ganddo ynghylch a penderfyniad y Panel Scriwtini yn ymwneud a Ymgynghoriad Ysgolion Henblas a Bodffordd.

2.3 Ers iddo cael ei ethol fel Cynghorydd Sirol, roedd yn aelod o Bwyllgor Cynllunio y Cyngor Sir a cyn aelod o'r Pwyllgor Scriwtini.

Arwyddo.....

3 ADRODDIAD YR HEDDLU.

3.1 Croesawyd Alison Hughes i'r cyfarfod.

3.2 Cafwyd adroddiad torri ffenestr a graffiti yn y Ganolfan.

3.3 Cafwyd adroddiad y difrod i'r wal yn y Cae Chwarae.

3.4 Cafwyd adroddiad fod cymdogion wedi gollwng tan gwyllt yn hwyr ar Nos Wener 21/4/2018.

3.5 **Parcio ger Ty Gwyn – Lon Groes** – cadarnhawyd nad oedd y mater yma yn broblem ar hyn o bryd ac fod cymdogion yn medru defnyddio y blwch post heb unrhyw anhawster.

3.6 **Stryd & Theras y Capel, Gaerwen –** cafwyd adroddiad PCSO Alison Hughes yn cadarnhau fod diffyg staff yn rhwystro gwiriadau cyflymder rheolaidd. Dywedodd y Clerc fod y Cyngor yn disgwyl adroddiad arolwg cyflymder ar hyd Stryd y Capel ers deunaw mis ac dywedodd Alison y bydd trefniadau mewn llaw i wneud yn siwr daw copi i law yn ogystal a threfnu arolwg cyflymder ar hyd yr A5.

4 DERBYN COFNODION MISOL Y CYNGOR (27ain Mawrth 2018).

3.1 Derbyniwyd ac arwyddwyd fod cofnodion cyfarfod 27ain Mawrth 2018 yn rhai cywir **(DH/EPW).**

5 MATERION YN CODI O'R COFNODION.

5.1 Safle Gofeb Gaerwen – adroddiad gan y Clerc fod y mater eisoes mewn llaw.d naill ochr

5.2 Parc Gwyddoniaeth – nad oedd ymateb ynghylch y goleuadau fflachar ger y mynedfa gan nid oedd son amdanynt yn y cais cynllunio gwreiddiol a hefyd fod uchder goleuadau llwybr troed o amgylch y safle yn uwch nag a grybwyllwyd yn y cais cynllunio sydd yn achosi pryder.

5.3 Safle Parcio & Rhannu – dywedodd y Clerc ei fod wedi derbyn ebost gan y Cyngor Sir yn nodi cyffordd 7 yr A55 (Cefn Du) fel safle posib yn sgil cyfnod adeiladu Wylfa Newydd. Nodwyd y bwriad ac ei fod angen cyfarfod gyda'r Cadeirydd yn gyntaf cyn cyfarfod gyda'r Cyngor Cymuned.

5.4 Arwydd Cyflymder Radar – roedd y Clerc wedi derbyn pecyn oddiwrth Cwmni Elan City yn cynnig arwydd cyflymder (cost £1,800). Rhannwyd y gwybodaeth gyda'r aelodau ac fe benderfynwyd mewn egwyddor ymgymeryd a'r cynnig ond gwneud mwy o ymchwil ynglyn a'r cwmni a cysylltu gyda Adran Briffyrdd y Cyngor Sir cyn symud ymlaen.

5.5 Tyllau – dangoswyd pryder cyflwr y tyllau ger mynedfa y Stad Diwydiannol a ger cyffordd yr A55 yn mynd tuag at Fangor. Gofynodd y Clerc i'r aelodau fynd o gwmpas y pentref er mwyn darganfod safleoedd eraill sydd angen sylw er mwyn darparu rhestr i'r Adran Briffyrdd.

Arwyddo.....

5.6 **Adroddiad Cyfarfod Un Llais Cymru – 22ain Mawrth 2018 –** oddiwrth Cynghorwr Raymond Evans ac ymhlith y rhaglen soniwyd am Tal i'r Cynghorwyr **ac fod angen llythyr ganddynt yn cadarnhau nad oeddynt am hawlio'r tal £500 pob aelod** oddiwrth y Cyngor Cymuned. Hefyd y bydd rhaid penodi Swyddog Deddfwriaeth Diogelu Data Newydd erbyn diwedd Mis Mai. Hefyd, fe fydd rhaid y Cyngor adnabod Pencampwr Iaith ar gyfer pob Cyngor fel rhan o Strategaeth Iaith Gymraeg y Cyngor Sir 2016-2021. **Gofynwyd i'r Clerc ddarparu ymwadiad ar gyfer pob aelod i'w harwyddo yn y cyfarfod nesaf.**

5.7 **Parc Gwyddoniaeth –** nodwyd gyda siom nad oedd y Cyngor wedi derbyn gwahoddiad swyddogol i'r diwrnod agored yn ddiweddar ac i anfon llythyr i'r Prif Weithredwr yn datgan y siomedigaeth yma.

6 MATERION ARIANNOL, GWEINYDDOL & ASESIAD RISG.

6.1 **Adroddiad Taliadau & Derbyniadau Mis Mawrth 2018.**
Fe aeth y Clerc drwy taliadau a derbyniadau y Cyngor am mis Mawrth 2018 gan cynnwys cysoniad a datganiad y banc ac fe cytunwyd i wneud y taliadau yn unfrydol. Wedi cysoni pob taliad a derbyniad, fe ddylai dangos fod £5,600 yn weddill yn y cyfrif cyffredol a £9,055 yn y cyfrif cadw ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

7 CEISIADAU CYNLLUNIO NEWYDD.

7.1 **Cais Adran 73 – Dileu Amodau – Cais Caniatad Cyllunio: 33C284A – Tir Gyferbyn Holland Arms, Pentre Berw, Gaerwen – Rhif 33C284B/DEL – DIM SYLWADAU**.

8 MATERION CAEAU CHWARAE.

8.1 Angen cysylltu gyda Clearall Pest Control er mwyn datrys problem tyrchod.

8.2 Derbyniwyd amcan pris £815.00 + TAW oddiwrth Cwmni William Evans & Sons er mwyn trwsio wâl y Cae Chwarae (DH/EPW).

8.3 Derbyniwyd amcan pris £100.00 wedi ei dderbyn gan Mr Dafydd Hughes er mwyn chwynladdu o gwmpas y Gardd Mileniwm.

9 MATERION LLWYBRAU.

9.1 DIM MATERION YN CODI.

10 MATERION PRIFFYRDD.

10.1 DIM MATERION ERAILL YN CODI AR HYN O BRYD.

Arwyddo.....

11. ADRODDIADAU, YMGYNGHORIADAU & GOHEBIAETH.

11.1 **Adroddiad Gweithdy Cynllunio Lle –** adroddiad oddiwrth Cynghorydd Einion Williams y bydd angen mapio y Sir mewn amser er mwyn creu wardiau fel bod Cynghorau yn gweithio yn fwy ar y cyd.

11.2 **Adroddiad y Ganolfan –** adroddiad oddiwrth Cynghorydd Ian Owen fod rhagor o welliannau angen ei wneud yn yr ystafell gefn.

11.3 **Adroddiad Ysgol Esceifiog –** adroddiad oddiwrth Cynghorydd Ian Owen fod Swydd Pennaeth yr Ysgol wedi ei hysbysebu. Nodwyd fod cytundeb wedi ei wneud rhwng y Ganolfan a'r Ysgol i ddefnyddio y maes parcio er mwyn cludo plant mewn argyfwng.

12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF – 22ain MAI 2018.

12.1 Diolchodd y Cadeirydd i'r aelodau am ddod ac fe clowyd y cyfarfod am 8:35yh.